**Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**(Comisiwn y Cynulliad)**

**Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol**

**2008**

# Cynnwys

Rhagair

Cyflwyniad

1. Gweithgareddau a chynnydd yn ystod 2008

2. Cynnydd ar gamau gweithredu (hil, anableddau a rhyw)

3. Ein gweithlu

4. Ymgysylltu a chyfranogi

5. Darparu cymorth i Aelodau’r Cynulliad

6. Darparu gwasanaethau i’r cyhoedd

7. Y blaenoriaethau ar gyfer 2009

**Rhagair**

Dyma Adroddiad Cydraddoldeb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2008 ac rydym yn falch o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ein gwaith yn hybu cydraddoldeb yn ystod y flwyddyn o ran gwella hygyrchedd i'n gwasanaethau, cyfleoedd cyflogaeth, gweithdrefnau ac adeiladau.

Rydym wedi llunio Datganiad Cydraddoldeb Strategol sy'n amlinellu ein strategaeth cydraddoldeb ar gyfer y tair blynedd nesaf. Yn ddiweddar, hefyd, rydym wedi cyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb integredig newydd (2008-2011). Mae'r Cynllun Gweithredu sy'n cyd-fynd yn nodi manylion ein blaenoriaethau a'r camau y mae angen i ni eu cymryd i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, fel cyflogwr ac fel sefydliad sy'n ymwneud â'r cyhoedd.

Ein nod yw hyrwyddo arfer gorau o ran hybu cydraddoldeb a chael gwared ag unrhyw rwystrau rhag cyflawni hyn. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu sy'n deillio o'r cynlluniau cydraddoldeb blaenorol a barhawyd gennym, lle y bo'n briodol, i'n Cynllun Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn edrych ymlaen tuag at 2009 ac yn gosod ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Bwriadwn adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd gennym yn 2008 a sicrhau ein bod yn parhau i wneud cynnydd wrth hybu cydraddoldeb ym mhopeth a wnawn.



**Y Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Cynulliad**
Y Gwir Anrhydeddus Yr Arglwydd Elis-Thomas AC

# Cyflwyniad

### Cynnwys yr adroddiad

- Y newyddion diweddaraf am y cynnydd sydd wedi digwydd yn y gwaith a wnaed ar gydraddoldeb ac a gyflawnwyd yn gyffredinol gan y sefydliad ac o ran dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus ym maes anableddau, rhyw a hil yn ystod 2008

- Amlinelliad o'n blaenoriaethau ar gyfer adeiladu ar ein gwaith ar gydraddoldeb yn 2009

### Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

Mae'r Tîm Cydraddoldebau a Mynediad, mewn cydweithrediad â Chomisiwn y Cynulliad, yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal, sef yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol.

## 1. Gweithgareddau a chynnydd yn ystod 2008

### Datblygu Datganiad Polisi Strategol Comisiwn y Cynulliad ar Gydraddoldeb

Cyhoeddodd Comisiwn y Cynulliad ei Ddatganiad Polisi Strategol yn ddiweddar sy'n amlinellu ei ymrwymiad i hybu cydraddoldeb ac sy'n gweithredu fel strategaeth dair blynedd ar gyfer datblygu agenda cydraddoldeb y sefydliad. Mae'r datganiad ar gael ar wefan Comisiwn y Cynulliad yn http://www.cynulliadcymru.org/abthome/equalities/abt-equalities-strategic-statement.htm

### Datblygu Cynllun Cydraddoldeb 2008-2011

Mae'r Tîm Cydraddoldeb a Mynediad hefyd wedi datblygu Cynllun Cydraddoldeb unigol integredig sy'n cynnwys y ffrydiau canlynol: oedran, anableddau, rhyw/hunaniaeth ryw, hil, crefydd/cred a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Cynllun Gweithredu atodol yn nodi'r camau gweithredu y mae angen i ni eu cymryd i hybu cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a chael gwared ar y rhwystrau yn erbyn cydraddoldeb.

Datblygwyd y Cynllun a'r Cynllun Gweithredu yn dilyn cyfnod o ymgynghori a thrafodaethau â staff, cydweithwyr yr undebau, Aelodau Cynulliad ac aelodau'r cyhoedd drwy'r gwahanol ffyrdd canlynol:

- Grwpiau ffocws o blith y staff
- Rhwydweithiau staff
- Arolygon e-bost i staff ac Aelodau Cynulliad
- Ymgynghoriad ar-lein a gafodd hysbysrwydd eang drwy e-bost
- Defnyddio digwyddiadau'r haf, er enghraifft yr Eisteddfod Genedlaethol, i gasglu gwybodaeth
- Y Tîm Cydraddoldeb a Mynediad yn trafod gydag ymwelwyr â'r Senedd dros gyfnod o un penwythnos
- Ein grŵp Llywio ar Gydraddoldeb o blith y staff
- Defnyddio cysylltiadau i chwilio am farn grwpiau lleiafrifoedd ethnig a chasglu'r wybodaeth honno a defnyddio dogfennau ymgynghori mewn amrywiaeth o ieithoedd cymunedol
- Fforwm Defnyddwyr Anabl Allanol

Gwelir crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad a'r digwyddiad cynhwysol yn Atodiad Pedwar i'r Cynllun Cydraddoldeb sydd ar gael drwy gysylltu â'n Tîm Cydraddoldeb a Mynediad neu ar ein gwefan yn:
http://www.cynulliadcymru.org/abthome/equalities/equality-scheme-home-page.htm



Aelodau’r cyhoedd yn rhoi eu barn yn ystod ein hymgynghoriad yn y Senedd



Aelodau’r cyhoedd yn rhoi eu barn yn yr Eisteddfod Genedlaethol

**Y Tîm Cydraddoldeb a Mynediad**

Mae’r tîm yn rhan o Uned Gorfforaethol Comisiwn y Cynulliad ac adeiladodd gapasiti yn 2008 i gyrraedd ei staff llawn erbyn mis Ebrill. Mae Rheolwr Cydraddoldebau, Swyddog Polisi a Chynghorydd Mynediad ar gael i gynorthwyo staff ac Aelodau’r Cynulliad a chadw mewn cysylltiad â meysydd gwasanaeth y sefydliad i sicrhau nad oes unrhyw bolisïau nac arferion gwaith yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un nac yn creu anfantais mewn unrhyw ffordd. Mae’r tîm yn hybu cydraddoldeb a chyfle cyfartal ac yn codi ymwybyddiaeth o’r materion hyn ymysg staff, Aelodau’r Cynulliad a’r cyhoedd.

**Cynllun Nodedig Operation Black Vote**

Rhwng mis Hydref 2007 a mis Mai 2008, gweinyddodd Comisiwn y Cynulliad gynllun cysgodi Aelod Cynulliad a oedd yn golygu bod pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn cysgodi Aelodau’r Cynulliad. Bu’r cynllun yn llwyddiannus iawn, gyda’r rhai a gymerodd ran yn parhau i ddatblygu eu gyrfaoedd gwleidyddol yn y gymuned, drwy’r awdurdod lleol, yn y Cynulliad Cenedlaethol neu yn San Steffan. Enillodd y cynllun hefyd wobr

democratiaeth cymdeithas Hansard yng ngwobrau gwleidyddol Channel 4. Ar hyn o bryd, rydym yn cwmpasu dyluniad Cynllun Mentora Aelod Cynulliad a Chynghorydd Lleol aml-ffrwd a'r nod yw ymestyn hyn i grwpiau eraill heb gynrychiolaeth ddigonol.



Aelodau'r Cynulliad a chyfranogwyr y Cynllun Cysgodi

## 2. Cynnydd ar gamau gweithredu 2007- 08 (dyletswyddau cydraddoldeb hil, anableddau a rhyw)

Fel corff cyhoeddus, mae Comisiwn y Cynulliad yn gweithredu yn unol â dyletswyddau'r sector cyhoeddus o ran hil, anableddau a rhyw. Mae camau gweithredu o'r cynlluniau a oedd yn weithredol cyn ein Cynllun Cydraddoldeb integredig wedi cael eu hadolygu ac wedi cael eu cynnwys, lle y bo'n briodol, yn ein Cynllun Cydraddoldeb a'n Cynllun Gweithredu.

Yma, rydym yn nodi'r cynnydd a wnaed mewn rhai meysydd penodol dros y flwyddyn ddiwethaf.

### Hil

**Canlyniad gofynnol: rheolaeth strategol, adnodd penodol a barn rheolwyr am faterion yn ymwneud â hil**

- Mae gennym Dîm Cydraddoldeb a Mynediad ar waith a chaiff ein Grŵp Llywio Cydraddoldeb ei gadeirio gan y Prif Weithredwr a Chlerc Comisiwn y Cynulliad. Mae'r Bwrdd Rheoli a Chomisiwn y Cynulliad yn derbyn papurau'n rheolaidd ar faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb.

**Canlyniad gofynnol: monitro nifer y bobl sy'n llwytho ieithoedd cymunedol i lawr**

- Mae gennym bellach y gallu i fonitro nifer y bobl sy'n defnyddio 'Llawlyfr y Cynulliad' mewn ieithoedd cymunedol eraill ar ein gwefan a byddwn yn casglu'r ystadegau o fis Ionawr 2009 i fonitro'r galw.

**Canlyniad gofynnol: adolygu gweithdrefnau hysbysebion recriwtio er mwyn gweld sut y gallwn ddenu gweithlu amrywiol.**

- Yn gynharach eleni, comisiynodd y Tîm Cydraddoldeb a Mynediad adolygiad allanol o'n polisïau a'n harferion recriwtio a'u heffeithiau ar allu ein sefydliad i gynyddu'r gynrychiolaeth o bobl o leiafrifoedd ethnig yn ein gweithlu. Gwnaeth yr adolygiad argymhellion a roddwyd ar waith gennym. Nodir rhai ohonynt eisoes.

**Canlyniad gofynnol: cynyddu cyrhaeddiad gweithgareddau recriwtio a chodi ymwybyddiaeth ymysg pobl o leiafrifoedd ethnig**

- Manteisiodd aelod o Rwydwaith Menywod o Leiafrifoedd Ethnig Cymru ar gyfle i dreulio chwe mis o secondiad gyda'r tîm adnoddau dynol. Yn ogystal â chynorthwyo gyda dyletswyddau adnoddau dynol, cynorthwyodd y Tîm Cydraddoldeb a Mynediad hefyd i ymgysylltu â phobl o leiafrifoedd ethnig lleol a chasglodd dystiolaeth gan amrywiaeth eang o bobl o wahanol gymunedau i lywio'r ymgynghoriad a'r broses o ymgysylltu ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb.

- Defnyddiodd y Tîm Cydraddoldeb a Mynediad y cysylltiadau a wnaed gyda chyfranogwyr cysgodi'r Cynllun Operation Black Vote hefyd i gael adborth gan bobl o leiafrifoedd ethnig ar ddatblygiad ein Cynllun Cydraddoldeb.

- Yn ystod 2009, bydd yr adran adnoddau dynol yn cynnal rhaglen beilot o aseiniadau gweithle ar gyfer pobl o leiafrifoedd ethnig. Diben yr aseiniadau fydd codi ymwybyddiaeth o Gomisiwn y Cynulliad fel darpar gyflogwr a chynnig y cyfle i ennill profiad gwaith mewn amgylchedd seneddol.

- Mae'r tîm recriwtio yn gweithio mewn partneriaeth â Chanolfan Fenter De Caerdydd ac yn rhoi gwybod iddi am swyddi sydd ar gael. Ymwelodd yr adran adnoddau dynol â'r ganolfan ar dri achlysur o fewn y cyfnod hwn gan drefnu i bobl o leiafrifoedd ethnig ymweld â Chomisiwn y Cynulliad i ddysgu mwy am y profiad o weithio yma.

- Mae'r Tîm Recriwtio hefyd wedi ymweld â dwy ffair yrfaoedd – un yn Ysgol Fitzalan a'r llall yn Neuadd y Ddinas. Y diben oedd hyrwyddo cyfleoedd sydd ar gael o fewn ein sefydliad i bobl o leiafrifoedd ethnig. Mae disgyblion ysgol o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig wedi manteisio ar gyfleoedd profiad gwaith yma yn ystod y flwyddyn hefyd.

## Anableddau

**Canlyniad gofynnol: darparu adeiladau a chyfleusterau sydd o dan ofal, yn hygyrch, yn agored, yn addas i'r diben ac yn ddiogel**

Mae'r Tîm Rheoli Swyddfeydd a Chyfleusterau a'r Tîm Cydraddoldeb a Mynediad yn goruchwylio rhaglen barhaus o addasiadau i'r Senedd a Thŷ Hywel. Rhai o'r enghreifftiau o'r addasiadau hyd yn hyn yw'r canlynol:

- Gosod bleinds yn y Senedd i leihau llewyrch yr haul i staff, Aelodau'r Cynulliad ac ymwelwyr â'r Senedd
- Mae podiau gwybodaeth ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn yn cael eu cynllunio ar gyfer oriel y Siambr
- Mae archwiliad o arwyddion Braille wedi cael ei gynnal ar gyfer Tŷ Hywel
- Mae drysau awtomatig wedi cael eu gosod ar goridorau cyhoeddus llawr daear a llawr cyntaf Tŷ Hywel - sy'n caniatáu i bawb ddefnyddio'r llwybrau'n annibynnol
- Mae ramp symudol wedi cael ei brynu ar gyfer digwyddiadau yn Siambr Hywel a gellir ei ddefnyddio yng ngweddill yr adeilad.

**Canlyniad gofynnol: sefydlu rhwydwaith staff anabl**

- Mae ein Cynghorydd Cydraddoldeb a Mynediad wedi sefydlu rhwydwaith ar gyfer staff anabl ac mae hyn yn cynnwys staff sydd hefyd yn cefnogi materion sy'n ymwneud ag anableddau neu sydd, o bosibl, â ffrindiau/perthnasau anabl. Mae'r rhwydwaith yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisïau ac yn gweithredu fel modd o gynorthwyo staff anabl.

**Canlyniad gofynnol: adborth gan bobl anabl/sefydliadau ar gyfer yr anabl, cymryd rhan a chyfranogi**

- Yn gynharach eleni, sefydlodd y Tîm Cydraddoldeb a Mynediad Fforwm Defnyddwyr Anabl allanol i'n cynorthwyo i ddatblygu gwaith ar hybu cydraddoldeb ym maes anableddau. Mae'r grŵp yn cynnwys cysylltiadau ym mhob rhan o Gymru.
- Sicrhaodd y Tîm Cydraddoldeb a Mynediad fod dulliau amgen ar gael ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb, gan sicrhau cyfranogiad cynhwysol.

**Canlyniad gofynnol: Mae gan bobl (staff ac Aelodau'r Cynulliad/staff cymorth Aelodau'r Cynulliad) offer i wneud eu gwaith**

- Cynhelir asesiadau rheolaidd o Gyfarpar Sgrin Arddangos y staff ac Aelodau'r Cynulliad er mwyn sicrhau bod y cyfarpar cywir ganddynt i'w galluogi i wneud eu gwaith yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae nifer o'r staff yn defnyddio technoleg adnabod llais ac mae addasiadau amrywiol wedi cael eu gwneud i sicrhau bod y staff yn gallu gweithio'n fwy cyfforddus.



Un o'r staff yn defnyddio cyfarpar adnabod llais

**Canlyniad gofynnol: sicrhau bod digwyddiadau a thrafodion yn hygyrch**

- Gall ein Llinell Archebu ar gyfer y Cynulliad helpu aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfodydd, sy'n arsylwi trafodion y Cynulliad neu sy'n gwneud dim ond ymweld â'r adeilad i gael y profiad gorau posibl drwy helpu i nodi unrhyw anghenion, er enghraifft yr angen am ddolen sain neu Ddehonglydd Iaith Arwyddion Prydain.

- Mae staff Gwasanaeth y Pwyllgorau hefyd yn defnyddio rhestr wirio hygyrchedd ar gyfer lleoliadau os cynhelir cyfarfodydd pwyllgor y tu allan i'r Senedd.

## Rhyw

**Canlyniadau gofynnol: cynyddu nifer y menywod sy'n gweithio fel swyddogion cysylltiadau ymwelwyr/swyddogion diogelwch**

- Bydd y Tîm Cydraddoldeb a Mynediad yn gweithio gyda'r Tîm Diogelwch ar unrhyw ddigwyddiadau recriwtio yn y dyfodol er mwyn nodi ffyrdd o annog menywod i wneud cais am y swyddi hyn a bodloni gofynion busnes.

**Canlyniad gofynnol: asesu'r angen i gynnal adolygiad tâl cyfartal**

- Bwriedir cynnal adolygiad tâl cyfartal yn 2009-10.

## 3. Ein gweithlu

### Proffil o'r Gweithlu – Arolwg Monitro Cydraddoldeb y Staff

Cynhaliwyd Arolwg Monitro Cydraddoldeb yr holl staff ym mis Mawrth 2008 a gofynnwyd i staff ddatgan eu hoedran, eu rhyw, eu gradd, unrhyw anableddau, eu hil, eu crefydd/cred a chyfeiriadedd rhywiol yn ddienw. Diben hyn oedd cael proffil o'n gweithlu o ran cydraddoldeb. Cafodd y staff gyfle i roi adborth hefyd, gydag awgrymiadau ar sut i wella cyfle cyfartal i'n gweithlu. Mae'r awgrymiadau hyn wedi cael eu hystyried yn ein Cynllun Gweithredu.

Roedd yr arolwg yn un gwirfoddol a chafwyd ymateb gan 76% o'n gweithlu. Bwriadwn gynnal yr arolwg hwn bob tair blynedd i gyd-fynd ag oes y Cynllun.

Lle mae gennym ddata o'n system TG adnoddau dynol presennol, rydym wedi defnyddio hyn isod ar gyfer oedran, rhyw a gradd.

**Ffigur 1: Oedran** (Ar 31 Mawrth 2008)


| Oedran | Nifer y staff (yn ôl grŵp oedran) | % yn ôl grŵp oedran<br>% |
|---|---|---|
| <20 | 2 | 1 |
| 20-24 | 29 | 9 |
| 25-29 | 56 | 17 |
| 30-34 | 51 | 16 |
| 35-39 | 30 | 9 |
| 40-44 | 33 | 10 |
| 45-49 | 41 | 13 |
| 50-54 | 29 | 9 |
| 55-59 | 33 | 10 |
| >60 | 19 | 6 |
| Cyfanswm | 323 | |

**Ffigur 2: Rhyw yn ôl Gradd** (Ar 31 Mawrth 2008)

| Gradd | Menywod | Dynion | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Cymorth Tîm | 33 | 86 | 119 |
| Ysgrifennydd Personol | 3 | 0 | 3 |
| Swyddog Gweithredol | 29 | 26 | 55 |
| Swyddog Gweithredol Uwch | 54 | 22 | 76 |
| Uwch-swyddog Gweithredol | 18 | 16 | 34 |
| G7 | 12 | 12 | 24 |
| G6 | 4 | 2 | 6 |
| G3 | 1 | 2 | 3 |
| G2 | 1 | 0 | 1 |
| Cyflogedig | 0 | 2 | 2 |
| | 155 | 168 | 323 |

Lle nad oes gennym wybodaeth gan yr adran adnoddau dynol am anableddau, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd/cred, rydym wedi defnyddio canlyniadau'r arolwg. Er mwyn diogelu preifatrwydd y staff, nid ydym wedi manylu'r wybodaeth hon.

**Ffigur 3 – Anableddau** (Ar 31 Mawrth 2008)





Dywedodd 87.9 y cant o'r rhai a ymatebodd nad oedd ganddynt anabledd.

Roedd gan 5 y cant o'r rhai a ymatebodd nam corfforol, ac roedd gan 3.3% fath arall o anabledd. Roedd y rhain yn cynnwys y categorïau canlynol: anabledd/anhawster dysgu, nam ar y synhwyrau, cyflwr iechyd meddwl a salwch neu gyflwr iechyd hirdymor.

Nid oedd 3.8 y cant o'r ymatebwyr am ateb y cwestiwn ar anableddau.

**Ffigur 4 - Hil** (Ar 31 Mawrth 2008)





O'r cyflogeion a ymatebodd i'r arolwg, roedd 92.9 y cant yn wyn a 5.0 y cant nad oeddynt yn wyn. Mae hyn yn cymharu â phoblogaeth o 4.5% o'r

boblogaeth nad ydynt yn wyn ar gyfer yr ardal teithio i'r gwaith swyddogol yng Nghaerdydd[1].

Roedd 77 y cant o'r bobl a gofnododd eu bod yn wyn yn dod o dan y categori Gwyn Cymreig.

Dewisodd 2.1 y cant beidio ag ateb y cwestiwn ar hil.

**Ffigur 5: Cyfeiriadedd Rhywiol** (Ar 31 Mawrth 2008)





Roedd 91.2 y cant o'r rhai am ymatebodd i'r arolwg yn heterorywiol.

Roedd cyfanswm y cyflogeion lesbaidd, hoyw a deurywiol yn 4.2 y cant o'r rhai a ymatebodd.

Nid oedd 4.6 y cant o bobl am gofnodi eu cyfeiriadedd rhywiol.

**Ffigur 6 – Crefydd/Cred** (Ar 31 Mawrth 2008)




Roedd y grŵp crefydd mwyaf o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg yn Gristnogion (49 y cant). Dywedodd y grŵp mwyaf wedyn (38.9 y cant) nad oedd ganddynt unrhyw gred grefyddol. Dewisodd 7.5 y cant beidio ag ateb y cwestiwn ar grefydd.

[1] O ddadansoddiad blaenorol Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau o ffigurau Cyfrifiad 2001.

**Materion ar gyfer y gweithlu yng nghyd-destun y data presennol a'r arolwg staff**

**Oedran:** ni chododd unrhyw faterion.

**Anableddau:** dewisodd rhai aelodau o'r staff beidio ag ateb y cwestiwn ar anabledd yn yr arolwg staff a gallai hyn awgrymu bod angen mwy o gymorth ar gyfer staff anabl. Mae ein Rhwydwaith Staff Anabl yn fodd o roi cymorth a thawelwch meddwl i staff anabl.

**Rhyw:** lle mae graddau'n dangos anghyfartaledd rhyw, byddwn yn adolygu ac yn ystyried unrhyw achosion posibl.

Er na ddywedodd unrhyw aelod o staff ei fod yn drawsrywiol, rhaid i ni fod yn hyderus fel sefydliad y gallwn gynorthwyo unrhyw staff newydd neu staff presennol os ydynt yn nodi eu bod yn drawsrywiol.

**Hil:** rhaid i ni sicrhau ein bod yn parhau i ddenu gweithlu amrywiol ac y gallwn fesur ein perfformiad yn ôl nifer y ceisiadau a gawn gan bobl o gefndiroedd amrywiol. Gweler y paragraff ar Recriwtio a Dethol.

**Crefydd/Cred:** ni chododd unrhyw faterion.

**Cyfeiriadedd rhywiol:** Eto, dewisodd rhai aelodau o staff beidio ag ateb y cwestiwn yn yr arolwg staff ar gyfeiriadedd rhywiol, a gallai hyn awgrymu bod angen mwy o gymorth ar gyfer staff lesbaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol. Mae ein Rhwydwaith Staff LGBT yn fodd o roi cymorth a thawelwch meddwl i staff LGBT.

**Data Recriwtio Lleiafrifoedd Ethnig a Gweithgareddau Allgymorth**
Gweler y data monitro recriwtio lleiafrifoedd ethnig ar gyfer Comisiwn y Cynulliad isod (yn unol â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Hil):

| **Manylion y Cyflogeion (ar 31 Mawrth 2008)** | |
|---|---|
| Nifer y cyflogeion | 323 |
| Nifer sydd wedi datgan eu cefndir ethnig | 302 |
| Nifer y bobl sydd o grwpiau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig | 14 |
| **Manylion y Cyflogeion Presennol (ar 1 Tachwedd 2008)** | |
| Nifer y cyflogeion presennol | 332 |
| Nifer sydd wedi datgan eu cefndir ethnig | 311 |
| Nifer y bobl sydd o grwpiau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig | 14 |
| **Ymgeiswyr Allanol *** | |
| Cyfanswm yr ymgeiswyr (sydd wedi datgan eu cefndir ethnig) yn y flwyddyn gyfredol (o 1 Ebrill 2008) | 422 |
| Nifer y ceisiadau gan grwpiau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig (o 1 Ebrill 2008) | 21 |
| Cyfanswm yr ymgeiswyr (sydd wedi datgan eu cefndir | 445 |

| | |
|---|---|
| ethnig) yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf (Ebrill 2007 – Mawrth 2008) | |
| Nifer y ceisiadau gan grwpiau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf (Ebrill 2007 - Mawrth 2008) | 34 |
| **Penodiadau** | |
| Nifer y penodiadau allanol yn y flwyddyn gyfredol (o 1 Ebrill 2008) | 19 |
| Nifer y penodiadau o grwpiau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig (o 1 Ebrill 2008) | 0 (0%) |
| Nifer y penodiadau allanol yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf (Ebrill 2007 – Mawrth 2008) | 71 |
| Nifer y penodiadau o grwpiau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig (Ebrill 2007 – Mawrth 2008) | 3 (4%) |

***Noder:** mae llawer o ymgeiswyr nad ydynt yn dychwelyd ein ffurflen monitro cyfle cyfartal wrth wneud cais.

**Trefniadau Gweithio Hyblyg**

Mae Busnes y Cynulliad (ee Cyfarfod Llawn a phwyllgorau) yn gweithredu ar yr egwyddor o oriau gwaith sy’n ystyriol o deuluoedd: ymdrechir i osgoi trefnu Busnes y Cynulliad cyn 9.00am neu ar ôl 6.00pm ar ddiwrnod gwaith os yw’n bosibl. Mae nifer o opsiynau gwaith hyblyg ar gael i alluogi staff a staff sydd â chyfrifoldebau gofal gydbwyso ymrwymiadau gwaith a’r cartref, gan gynnwys oriau llai, oriau cywasgedig a gweithio rhan amser, gweithio oriau hyblyg a gweithio yn ystod y tymor. Caiff anghenion y staff eu cydbwyso yn erbyn anghenion y busnes.

**Cymorth i Gyflogeion: Rhwydweithiau Staff**

Mae gennym Rwydwaith Staff Anabl a Rhwydwaith Staff Lesbaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol a gaiff eu cynnal gan y staff ar gyfer y staff. Caiff y ddau rwydwaith eu cydnabod yn ffurfiol gan Gomisiwn y Cynulliad ac mae ganddynt eu cyllidebau eu hunain. Diben y rhwydweithiau yw gwasanaethu fel rhwydweithiau cymorth i staff anabl a staff lesbaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol a chymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu polisïau drwy ystyried asesiadau effaith cydraddoldeb a ffyrdd eraill o ymgynghori.

**Hysbysebion Recriwtio**

Mae’r Tîm Recriwtio a’r Tîm Cydraddoldeb a Mynediad yn cydweithio’n agos iawn i adolygu gwybodaeth sy’n ymwneud â recriwtio a sicrhau y caiff yr arfer gorau mewn cydraddoldeb ei integreiddio i’r gweithdrefnau a’r arferion recriwtio. Yn bennaf, rydym wedi ystyried sut y byddai’n bosibl geirio hysbysebion swyddi a sut y byddai’n bosibl eu dylunio a’u hysbysebu i adlewyrchu ein hymrwymiad i hybu cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth.

**Canllaw ‘Starting Out’ Stonewall a Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle**

Caiff Comisiwn Cynulliad Cymru ei gynnwys yng nghanllaw recriwtio Stonewall ‘Starting Out – Lesbian and Gay Recruitment Guide 2008/09’ fel

cyflogwr sy'n ystyriol o bobl hoyw o ran myfyrwyr a phobl sydd am newid gyrfa.

Cawsom statws calonogol yn y Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle a gynhaliodd Stonewall ar gyfer 2008 ac rydym wedi gwneud cais ar gyfer ein cynnwys ym mynegai 2009. Bydd y canlyniadau hyn ar gael ddechrau'r flwyddyn nesaf.

**Hyfforddiant ar Gydraddoldeb**

Mae hyfforddiant ar gydraddoldeb yn cael ei gynnwys yn ein pecyn Hyfforddiant Sefydlu ar gyfer aelodau newydd o staff.

Mae'r Tîm Cydraddoldeb a Mynediad yn gweithio gyda meysydd gwasanaeth y sefydliad cyfan i ddatblygu hyfforddiant cydraddoldeb craidd ar y Cynllun Cydraddoldeb a chodi ymwybyddiaeth ar gyfer yr holl staff. Caiff hyfforddiant penodol ar gydraddoldeb ei nodi a'i ddatblygu gyda staff o ran anghenion busnes y meysydd gwasanaeth a bydd yn cynnwys hyfforddiant ar ddyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

Bydd y Tîm Cydraddoldeb a Mynediad yn gweithio gydag Aelodau'r Cynulliad a'u staff i nodi lle mae angen hyfforddiant priodol, penodol a chyfleoedd i godi ymwybyddiaeth.

**Hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth o Fyddardod ac Iaith Arwyddion Prydain (BSL)**

Mae gennym gontract ar waith i roi hyfforddiant BSL i staff, Aelodau'r Cynulliad a staff cymorth Aelodau'r Cynulliad. Ym mis Tachwedd, cyflwynwyd Sesiynau blas 'Croeso a Chyfarch/Ymwybyddiaeth o Fyddardod' i staff eu mynychu yn wirfoddol gyda'r bwriad o gyflwyno cyrsiau pellach y flwyddyn nesaf.

**Mentrau Codi Ymwybyddiaeth**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Tîm Cydraddoldeb a Mynediad wedi ymdrechu i godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb ym mhob agwedd ar gydraddoldeb ymysg staff ac Aelodau'r Cynulliad gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i dros 28 o fentrau o fewn y sefydliad drwy fwletin wythnosol y staff, cylchgrawn 'Y Llechen', mewnrwyd y staff a'r Aelodau, posteri a thaflenni gwybodaeth.

## 4. Ymgysylltu a chyfranogi

**Fforwm Defnyddwyr Anabl**
Rydym wedi meithrin cysylltiad â grŵp o ddefnyddwyr gwasanaeth anabl ledled Cymru sy'n ein cynorthwyo i ddatblygu polisïau a gweithdrefnau sy'n hybu cyfle cyfartal i bobl anabl.

**Digwyddiadau yn y Senedd**
Mae'r Senedd a Thŷ Hywel wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â chydraddoldeb, gan gynnwys lansio adroddiadau, codi ymwybyddiaeth a dathliadau ar gyfer grwpiau sy'n cynrychioli pob agwedd ar gydraddoldeb.

Yn benodol, byddwn wedi cynnal dathliad ar 3 Rhagfyr i nodi Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl yn Nhŷ Hywel ac yn y Senedd a chydnabod yr hyn y mae pobl anabl wedi ei gyflawni drwy'r sefydliadau gwirfoddol sy'n eu cynrychioli. Mae'r Tîm Cydraddoldeb a Mynediad wedi gwahodd cynrychiolwyr o sefydliadau partner sy'n adlewyrchiad o'r amrywiaeth o bobl anabl heb gynrychiolaeth ddigonol yng Nghymru i fod ar y grŵp llywio ar gyfer y digwyddiad.

Trefnwyd y digwyddiad hwn hefyd i roi cyfle i'n staff, Aelodau'r Cynulliad a'u staff hwythau ddysgu mwy am y materion a'r rhwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu bob dydd. Bydd y diwrnod yn cynnwys trafodaethau, storïau, gweithdai perfformio a chyflwyniadau gan unigolion a sefydliadau cynrychiolaethol.

**Seminar Rhwydwaith Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall – Amrywiaeth Darparwyr**
Ym mis Awst 2008, cynhaliodd Comisiwn y Cynulliad seminar Rhwydwaith Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall ar y thema 'Sicrhau Amrywiaeth Darparwyr'. Roedd y digwyddiad yn llwyddiannus gan mai dyma'r seminar y daeth y mwyaf o bobl yng Nghymru iddi hyd yn hyn ac, yn arwyddocaol, roedd yn gyfle i'r sector cyhoeddus a'r sector preifat rwydweithio a rhannu arfer gorau.




Mynychwyr Seminar Rhwydwaith Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall

**Allgymorth: Hygyrchedd yn Nigwyddiadau'r Haf 2008 (Sioe Amaethyddol Cymru a'r Eisteddfod)**

**Strwythur**

Roedd strwythur y stondin dros dro yn cydymffurfio'n llwyr â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, a chafodd ei hasesu gan ein contractwyr i sicrhau hygyrchedd llawn. Roedd hyn yn sicrhau bod ramp a oedd yn cydymffurfio'n llwyr â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd yn rhedeg o'r strwythur i'r prif lwybr. Sicrhawyd bod hygyrchedd o fewn y strwythur yn dda gan ganiatáu hygyrchedd a lle clir rhwng pob un o'n gweithgareddau a'n gweithfannau.

**Gweithgareddau**

Roedd yr holl wybodaeth a'r posteri cyhoeddusrwydd ar gyfer ein digwyddiadau yn hollol ddwyieithog, yn faint ffont 12 o leiaf a'r lliwiau yn caniatáu digon o wahaniaeth rhwng y testun a'r cefndir.

**Cyfleusterau TGCh**

Ar ein stondin eleni, sicrhawyd bod o leiaf un o'n gweithfannau cyfrifiadur ar lefel gywir ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn ac roedd cyhoeddiadau Braille a thapiau sain ar gael ar gais.

## 5. Darparu cymorth i'r Aelodau

### Gwaith pwyllgorau'r Cynulliad

Gwasanaeth y Pwyllgorau sy'n gyfrifol am gynorthwyo gwaith pwyllgorau'r Cynulliad. Wrth wneud hynny, mae'r gwasanaeth yn ceisio cynnwys ystyriaethau cydraddoldeb ym mhob agwedd ar ei holl waith. Er enghraifft, drwy geisio sicrhau'r elfennau canlynol:

- bod gan y pwyllgorau yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt, drwy waith briffio a phapurau perthnasol, er mwyn cynnal eu gwaith craffu mewn ffordd sy'n cydnabod yn llawn effeithiau materion cydraddoldeb;

- ei bod yn hawdd cael gafael ar waith y pwyllgorau ac y gall y rhai sydd ag anghenion amrywiol gyfrannu'n gyfartal at waith y pwyllgorau;

- bod adroddiadau pwyllgorau, a gwybodaeth arall, ar gael mewn fformatau sy'n sicrhau y gall pawb gael gafael arnynt yn gyfartal.

Dyma rai enghreifftiau byr o'r ffordd y mae'r pwyllgorau wedi defnyddio'r cymorth a roddir gan Wasanaeth y Pwyllgorau i'w cynorthwyo yn eu gwaith:

- Ynghyd â'i adroddiad ar gymorth i bobl â dyslecsia, cyhoeddodd y Pwyllgor Menter a Dysgu grynodeb o'r adroddiad hwnnw. Y nod oedd cynorthwyo i ddefnyddio ac i ddeall yr adroddiad a sicrhau bod y rhai sy'n ceisio ymdopi â dyslecsia yn deall y canfyddiadau. Roedd ffont a chynllun y prif adroddiad hefyd wedi eu dylunio i fod mor ystyrlon â phosibl o'r prif randdeiliaid.

- Wrth ystyried tlodi gwledig ac amddifadedd, mabwysiadodd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ffordd o ganolbwyntio ar y dinesydd wrth gynnal sesiynau tystiolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc, pobl hŷn a phobl sy'n economaidd weithgar a'r rhai sy'n economaidd anweithgar.

- Fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant i gam-drin domestig, gwnaed trefniadau i Aelodau unigol ymweld â llochesau a siarad yn uniongyrchol â dioddefwyr am y modd y mae gwasanaethau ar gyfer y rhai sy'n dioddef o gam-drin domestig yn diwallu anghenion amrywiol y gwahanol grwpiau o bobl.

- Ar gyfer adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar ddarpariaeth gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc, trefnodd staff Gwasanaeth y Pwyllgorau i fersiwn hawdd ei ddarllen o'r adroddiad gael ei gynhyrchu. Yn ystod yr un ymchwiliad hefyd, trefnodd staff Gwasanaeth y Pwyllgorau i'r Pwyllgor glywed gan grwpiau o bobl ifanc a oedd yn pryderu am roi tystiolaeth yn gyhoeddus. Canlyniad hyn oedd sicrhau bod y Pwyllgor yn gallu rhoi cyfle i bobl ifanc fynegi barn ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau.

- I gynorthwyo ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol i ganiatâd tybiedig i roi organau, trefnodd staff Gwasanaeth y Pwyllgorau a gwasanaeth addysg y Cynulliad drafodaeth am y materion allweddol ymysg bron i 500 o ddisgyblion ysgol.

- Mae staff Gwasanaeth y Pwyllgorau wedi rhoi cefnogaeth i'r Pwyllgor Deisebau drwy gynorthwyo pobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu i roi tystiolaeth mewn cyfarfod ffurfiol. Roedd hyn yn cynnwys cynnig iddynt ddefnyddio cardiau fflach i'w helpu i deimlo'n fwy cyfforddus a briffio eu gweithwyr cymorth ac Aelodau'r Pwyllgor cyn y cyfarfod. Cafodd y staff gymorth drwy gynllun 'Partneriaid mewn Gwleidyddiaeth' Mencap i alluogi'r Pwyllgor i glywed tystiolaeth mewn ysgol ac mewn grwpiau trafod bach a oedd yn addas i'w hanghenion. Mae dogfennau canllaw hefyd yn cael eu cyfieithu i amrywiaeth o fformatau hawdd eu defnyddio ac amlieithol er mwyn ehangu ymhellach ar nifer y bobl sy'n gallu defnyddio'r system ddeisebau.

Yn ychwanegol at y materion hyn, rhoddir ystyriaeth bob amser i sicrhau bod materion cydraddoldeb yn rhan o gylch gwaith ymchwiliadau pwyllgorau ac rydym yn sicrhau bod galwadau am dystiolaeth yn cael eu hanfon at sefydliadau a grwpiau cydraddoldeb perthnasol fel y gallant gyfrannu at ymchwiliadau.

Rydym hefyd yn sicrhau bod unrhyw leoliadau a drefnir ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor yn cydymffurfio, o leiaf, â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, a bod ein gwefan mor ystyrlon â phosibl o bob grŵp o ddefnyddwyr.

Rydym hefyd wedi sefydlu grŵp i ystyried y ffordd y gallwn sicrhau y caiff anghenion amrywiol y tystion sy'n ymddangos gerbron pwyllgorau'r Cynulliad eu diwallu'n well.

**Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau**

**Y cymorth a roddir gan y gwasanaeth ymchwil i ymchwiliadau pwyllgor**
Yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant i gam-drin domestig paratowyd papur ystyriaethau gan brif ymchwilydd yr ymchwiliad hwnnw er mwyn galluogi'r Pwyllgor i nodi materion a fyddai'n ymwneud â grwpiau penodol neu â phobl benodol mewn amgylchiadau arbennig. Rhoddodd y prif ymchwilydd gyngor hefyd i'r tîm clercio a'r aelodau i gynnal cyfres o gyfarfodydd thematig a oedd yn canolbwyntio ar brofiad, anghenion a darparu gwasanaeth ar gyfer grwpiau penodol o bobl. Derbyniwyd y cyngor hwn a chynhaliodd y Pwyllgor gyfarfodydd thematig a oedd yn ymwneud â phlant, pobl o gymunedau a chefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig, pobl hŷn a gofalwyr. Roedd y wybodaeth a luniwyd i gynorthwyo'r Pwyllgor yn ystod pob sesiwn gasglu tystiolaeth yn cynnwys cwestiynau penodol a oedd yn berthnasol i'r grwpiau hyn ac eraill, gan gynnwys pobl anabl, pobl hoyw, siaradwyr Cymraeg, pobl mewn ardaloedd gwledig a phobl nad oes ganddynt hawl i gael arian cyhoeddus.

**Amcanion Rheoli Perfformiad ac Adolygu Datblygiad (PMDR)**
Drafftiodd prif swyddog cydraddoldeb Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau restr o awgrymiadau o amcanion y dylai cydweithwyr eu cynnwys yn eu hamcanion Rheoli Perfformiad ac Adolygu Datblygiad a dosbarthwyd y rhestr hon i arweinwyr timau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau. Datblygwyd hon ymhellach gyda'u help hwy, gan ganolbwyntio ar rai o'r swyddogaethau penodol y mae gwahanol dimau yn ymgymryd â hwy.

**Cymorth Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau i waith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru**
Er mwyn galluogi aelodau'r pwyllgorau craffu i ofyn cwestiynau am y gyllideb ddrafft o ran sut mae'n adlewyrchu amcanion polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â phlant a lleihau anghydraddoldeb, anfonodd prif swyddog cydraddoldeb Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau e-bost at bob ymchwilydd yn gofyn iddynt gynnwys rhai o'r cwestiynau a awgrymwyd i'r perwyl hwn yn eu papurau briffio. Mewn cydweithrediad ag ymchwilydd arall darparodd prif swyddog cydraddoldeb Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau restr o awgrymiadau ar gyfer cwestiynau a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Egwyddorion cyffredinol / prif ffrydio (sut y cânt eu hadlewyrchu yn y gyllideb ddrafft; pa dystiolaeth neu ddulliau a ddefnyddiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau y caiff ei chyllideb ddylanwad cadarnhaol o ran cydraddoldeb (ee cyllidebu o ran rhyw, comisiynu gwaith ymchwil ac ati)
- Ymrwymiadau Cymru'n Un
- Rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Cyhoeddiadau gwariant ac ymrwymiadau ariannu yn canolbwyntio ar gydraddoldeb / plant.

**Cynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â chydraddoldeb yn y papurau briffio ar gyfer Aelodau'r Cynulliad**
Mae pob un o ymchwilwyr Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau wedi cynnwys cwestiynau ym mhapurau briffio yr Aelodau sydd â'r nod o dynnu sylw at swyddogaeth yr Aelodau ym maes cydraddoldeb. Dangosir rhai o'r enghreifftiau isod:

- Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc - roedd y papur briffio hwn am y gyllideb yn canolbwyntio'n llwyr ar oblygiadau'r gyllideb ddrafft ar blant a phobl ifanc

- Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant – yn cynnwys papurau briffio am Gyfiawnder Cymdeithasol, Tai a Threftadaeth

- Y Pwyllgor Menter a Dysgu – yn cynnwys papurau briffio am blant, addysg, dysgu gydol oes a sgiliau

- Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal - roedd yr holl bapurau briffio yn canolbwyntio ar graffu ar i ba raddau roedd y gyllideb ddrafft yn adlewyrchu'r

ymrwymiad i gyfle cyfartal, gan ganolbwyntio ar feysydd a oedd yn peri'r pryder mwyaf i'r pwyllgor (ee plant anabl a phobl hŷn)

- Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol
- Y Pwyllgor Cynaliadwyedd
- Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

## 6. Darparu gwasanaethau i'r cyhoedd

### Adeiladau hygyrch

Mae rhaglen o welliannau ar waith ar gyfer Tŷ Hywel ac adeilad y Senedd a chaiff y gwaith hwn ei oruchwylio gan y Tîm Rheoli Swyddfeydd a Chyfleusterau mewn cydweithrediad â'r Tîm Cydraddoldeb a Mynediad. Rydym wedi ystyried awgrymiadau gan aelodau anabl o'r staff, Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd. Un o'r addasiadau mwyaf nodedig yw darparu drysau hygyrch awtomatig ar goridorau cyhoeddus llawr daear a llawr cyntaf Tŷ Hywel er mwyn caniatau i bawb ddefnyddio'r llwybrau'n annibynnol.

### Trafodaethau hygyrch

Mae cymhorthion cyfathrebu (hy systemau dolen sain, dehongli BSL ac ati) ar gael wrth wneud cais amdanynt 14 diwrnod cyn arsylwi trafodaethau Cyfarfodydd Llawn neu drafodaethau pwyllgorau.

### Gwybodaeth hygyrch

Ar 2 Gorffennaf, rhoddodd y Tîm Cydraddoldeb a Mynediad bolisi gwybodaeth hygyrch drafft i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Roedd y polisi hwn wrthi'n cael ei lunio ar y pryd. Yn ei gyfarfod ar 20 Tachwedd, cafodd Lorraine Barrett AC, Comisiynydd y Cynulliad, wahoddiad gan y pwyllgor i drafod datblygiadau'r gwaith hwn. Mewn cydweithrediad â'r Tîm Cyfathrebu Allanol, mae'r Tîm Cydraddoldeb a Mynediad yn gweithio gyda staff o bob adran i sicrhau bod y polisi hwn yn cwmpasu'r holl wybodaeth a ddosberthir a bod ystyriaethau hygyrchedd yn rhan sylfaenol o'r wybodaeth a gaiff ei chynhyrchu gennym.

Mae'r Tîm Cydraddoldeb a Mynediad yn datblygu pecyn cymorth ar gyfer y staff, Aelodau'r Cynulliad a'u staff hwythau (gyda'r polisi) a fydd yn eu galluogi i lunio gwybodaeth hygyrch os bydd angen.

## 7. Y blaenoriaethau ar gyfer 2009

Mae'r camau hyn wedi cael eu nodi yn ein Cynllun Cydraddoldeb a'n Cynllun Gweithredu (2008-2011) a dyma fydd ein blaenoriaethau y flwyddyn nesaf:

**Hyfforddiant cydraddoldeb a chodi ymwybyddiaeth**
Datblygu a gweithredu rhaglen hyfforddiant cydraddoldeb a chodi ymwybyddiaeth ar gyfer y staff, Aelodau'r Cynulliad a'u staff hwythau.

**Cynllun mentora'r Cynulliad ar gyfer Cymru gyfan**
Datblygu a gweithredu cynllun mentora Aelod Cynulliad a Chynghorydd Lleol ar gyfer Cymru gyfan wedi'i dargedu at grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

**Archwiliad cyflog cyfartal**
Cynnal archwiliad cyflog cyfartal.

**Ffordd o asesu effaith**
Gwella ein ffordd o asesu effaith a hyfforddi'r staff i ddefnyddio'r dull hwnnw'n effeithiol.

**Polisi gwybodaeth hyblyg**
Datblygu ein polisi a'n pecyn cymorth ar wybodaeth hyblyg.

**Cyfnewidfa gydraddoldeb ryngseneddol**
Cynnal ein cyfnewidfa gydraddoldeb ryngseneddol gyntaf lle byddwn yn rhannu arfer gorau gyda Thimau Cydraddoldeb cyfatebol mewn rhannau eraill o'r DU.

**Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2009**
Cyhoeddi ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol ym mis Rhagfyr 2009, yn unol â'n Cynllun Cydraddoldeb ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal.